OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1159 (Cy. 284)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Ddinbych (Trefniadau Etholiadol) 2021

*Gwnaed - - - - 18 Hydref 2021*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(**1**), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mehefin 2019 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i'r argymhellion hynny gydag addasiadau.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ddinbych (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**), daw'r Gorchymyn hwn i rym drennydd y diwrnod y'i gwneir.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(**4**).

(4) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Deddf 1972"), ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(**2**) 2013 dccc 4.

(**3**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**4**) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir Ddinbych;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o **[**[F1]Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013**]**, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn ergl. 1(4) wedi eu hamnewid (25.6.2024) gan Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (asc 4), a. 25(1)(a), **Atod. 1 para. 21**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 20.10.2021 at ddibenion penodedig, gweler **ergl. 1(2)**

**I2** Ergl. 1 mewn grym ar 5.5.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **ergl. 1(3)**

### Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych

**2.**—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Ddinbych, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Ddinbych wedi ei rhannu'n 29 o wardiau etholiadol, a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer yr aelodau o'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**5**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 2 mewn grym ar 20.10.2021 at ddibenion penodedig, gweler **ergl. 1(2)**

**I4** Ergl. 2 mewn grym ar 5.5.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **ergl. 1(3)**

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

18 Hydref 2021

(**5**) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

## ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. mewn grym ar 20.10.2021 at ddibenion penodedig, gweler **ergl. 1(2)**

**I6** Atod. mewn grym ar 5.5.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **ergl. 1(3)**

**Tabl**

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Alyn Valley | Dyffryn Alun | Cymunedau Llanarmon-yn-Iâl a Llandegla | 1 |
| Bodelwyddan | Bodelwyddan | Cymuned Bodelwyddan | 1 |
| Denbigh Caledfryn Henllan | Dinbych Caledfryn Henllan | Cymuned Henllan a wardiau Canol Dinbych a Dinbych Uchaf o gymuned Dinbych | 3 |
| Denbigh Lower | Dinbych Isaf | Ward Dinbych Isaf o gymuned Dinbych | 2 |
| Dyserth | Dyserth | Cymuned Dyserth | 1 |
| Edeirnion | Edeirnion | Cymunedau Cynwyd, Llandrillo a Chorwen | 2 |
| Efenechdyd | Efenechdyd | Cymunedau Betws Gwerful Goch, Clocaenog, Derwen ac Efenechdyd | 1 |
| Llandyrnog | Llandyrnog | Cymunedau Aberchwiler, Llandyrnog a Llanynys | 1 |
| Llanfair Dyffryn Clwyd Gwyddelwern | Llanfair Dyffryn Clwyd Gwyddelwern | Cymunedau Bryneglwys, Gwyddelwern, Llanelidan a Llanfair Dyffryn Clwyd | 1 |

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Llangollen | Llangollen | Cymunedau Llangollen a Llandysilio-yn-Iâl | 2 |
| Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch | Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch | Cymunedau Cyffylliog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch a Nantglyn | 1 |
| Moel Famau | Moel Famau | Cymunedau Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanferres a Llangynhafal | 1 |
| Prestatyn Central | Canol Prestatyn | Ward Canol Prestatyn o gymuned Prestatyn | 2 |
| Prestatyn East | Dwyrain Prestatyn | Ward Dwyrain Prestatyn o gymuned Prestatyn | 2 |
| Prestatyn Meliden | Prestatyn Alltmelyd | Ward Alltmelyd o gymuned Prestatyn | 1 |
| Prestatyn North | Gogledd Prestatyn | Ward Gogledd Prestatyn a Gogledd-orllewin Prestatyn o gymuned Prestatyn | 3 |
| Prestatyn South West | De-orllewin Prestatyn | Ward De-orllewin Prestatyn o gymuned Prestatyn | 2 |
| Rhuddlan | Rhuddlan | Cymuned Rhuddlan | 2 |
| Rhyl East | Dwyrain y Rhyl | Wardiau Brynhedydd a Phlastirion o gymuned y Rhyl | 2 |
| Rhyl South | De'r Rhyl | Ward Derwen o gymuned y Rhyl | 2 |
| Rhyl South West | De-orllewin y Rhyl | Wardiau Cefndy a Phendyffryn o gymuned y Rhyl | 2 |
| Rhyl Trellewelyn | Y Rhyl Trellewelyn | Ward Trellewelyn o gymuned y Rhyl | 2 |
| Rhyl Tŷ Newydd | Y Rhyl Tŷ Newydd | Ward Tŷ Newydd o gymuned y Rhyl | 2 |

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Rhyl West | Gorllewin y Rhyl | Wardiau Bodfor a Foryd o gymuned y Rhyl | 2 |
| Ruthin | Rhuthun | Cymuned Rhuthun | 3 |
| St Asaph East | Dwyrain Llanelwy | Ward Dwyrain Llanelwy o gymuned Llanelwy | 1 |
| St Asaph West | Gorllewin Llanelwy | Ward Gorllewin Llanelwy o gymuned Llanelwy | 1 |
| Trefnant | Trefnant | Cymunedau Cefnmeiriadog a Threfnant | 1 |
| Tremeirchion | Tremeirchion | Cymunedau Bodfari, Cwm, Tremeirchion a'r Waun | 1 |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mehefin 2019 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Sir Ddinbych. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 30 i 29, a chynyddu nifer y cynghorwyr o 47 i 48.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Ddinbych ac yn cyflwyno'r Atodlen sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/06/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Sir Ddinbych (Trefniadau Etholiadol) 2021.